CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2021

PRESENNOL: Y Cynghorydd Glyn Haynes (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Dafydd Roberts (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr John Griffith, Richard Griffiths, K P Hughes, T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, Richard Owain Jones, G O Jones, R Ll Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, R G Parry OBE FRAgS, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, J A Roberts, Margaret Murley Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams a Robin Williams

WRTH LAW: Prif Weithredwr,
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,
Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,
Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo,
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,
Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,
Swyddog Pwyllgor (MEH).

HEFYD YN BRESENNOL: Neb

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr R Dew a Jeff Evans

1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

2. COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Medi, 2021 fel cofnod cywir.

3. I DDERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR

Cafwyd y cyhoeddiadau canlynol gan y Cadeirydd:-

- Bu iddo longyfarch Adran Dai Ynys Môn sydd wedi bod yn gweithio â Chyngor Gwynedd ar y cynllun Grantiau Tai Gwag i Brynwyr Tro Cyntaf. Maent wedi ennill gwobr y Sefydliad Tai Siartredig 2021 am Gefnogi Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru.
- Mae cynllun y Cyngor Sir i adnewyddu Neuadd y Farchnad Caergybi hefyd wedi ennill gwobr genedlaethol – Gwobr Effaith Gymunedol AJ100 yr *Architect's Journal*.
- Bu iddo longyfarch Carl Edwards, Gethin Jones a Tudur Jones, Staff y Cyngor, sydd, ynghyd ag Aelodau Clwb Seiclo Gwalchmai, wedi codi £13,000 at elusen Dementia ac Alzheimer trwy seiclo o Fae Trearddur i Aberystwyth – cyfanswm o 116 milltir.

- Bu iddo longyfarch Mrs Celyn M Edwards ar gael ei phenodi'n Brif Weithredwr Cymdeithas Elusennol Ynys Môn.

* * * *

Cydymdeimlodd â'r Cynghorydd Ieuan Williams a'i deulu ar golli ei dad yng nghyfraith yn ddiweddar.

Cydymdeimlodd ag unrhyw Aelod arall o'r Cyngor neu unrhyw Aelod o Staff a oedd wedi dioddef profedigaeth yn ddiweddar.

Aeth y Cadeirydd ymlaen i gyfeirio at y digwyddiad trasig yn Leigh on Sea, Essex ar 15 Hydref, a arweiniodd at farwolaeth gynamserol Syr David Amess AS. Cydymdeimlodd yn ddwys â theulu Syr David Amess.

4. ANNUAL PERFORMANCE REPORT 2020/21

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid i'r Pwyllgor Gwaith ar 25 Hydref, 2021 i'w dderbyn gan y Cyngor.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Busnes y Cyngor bod yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn dadansoddi pa mor dda y mae'r Cyngor wedi perfformio yn erbyn ei dri amcan llesiant yn ystod 2020/21 fel yr adlewyrchir yn y data a'r dadansoddiad o'r dangosyddion perfformiad yn yr adroddiad a hynny yn ystod blwyddyn heriol iawn oherwydd y pandemig. Prif nod y Cyngor oedd cadw'i weithlu a phobl Ynys Môn yn ddiogel ac iach yn ystod y cyfnod anodd hwn a sicrhau bod gwasanaethau statudol yn cael eu cynnal. Nododd bod cynnydd pellach wedi cael ei gyflawni mewn sawl maes ar draws y gwasanaethau wrth fwrw ymlaen â'r mentrau a phrosiectau y sonnir amdanynt yn yr adroddiad. Roedd y Cynghorydd Thomas yn dymuno diolch i'r staff, partneriaid a chontractwyr sy'n gwneud gwaith ar ran y Cyngor am eu gwaith caled. Fodd bynnag, disgwylir y bydd y Cyngor yn wynebu heriau pellach wrth i'r gaeaf agosáu.

Roedd yr Aelodau â chyfrifoldebau portffolio dros wasanaethau'r Cyngor yn dymuno diolch i'r staff, sefydliadau partner a chontractwyr am eu gwaith i gynnal a chadw gwasanaethau'r Cyngor yn ystod cyfnod anodd y pandemig.

Dywedodd y Cynghorydd R Ll Jones ei fod yntau yn dymuno diolch i'r staff am weithio'n galed i gynnal gwasanaethau'r Cyngor yn enwedig yn sgil y cynnydd mewn problemau lechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau, Cam-drin Domestig ymysg Pobl Hŷn a Phobl Ifanc yn cael eu rhwystro rhag gweld teulu a'u ffrindiau. Cyfeiriodd at yr angen i leihau ôl troed carbon awdurdodau lleol.

Ategodd y Cynghorydd J Arwel Roberts y datganiad ynglŷn â lleihau ôl troed carbon. Cyfeiriodd at yr adroddiad a oedd yn nodi bod gan y Cyngor 7 cerbyd trydan a 107 o gerbydau disel ar hyn o bryd a bod 4 cerbyd trydan arall wedi'u harchebu; holodd y Cynghorydd Roberts a oedd 4 cerbyd trydan yn ddigonol. Ymatebodd arweinydd y Cyngor bod adolygiad o fflyd y Cyngor ar y gweill i weld faint o gerbydau fydd ei angen ar y Cyngor yn y dyfodol gan fod llai o deithio rhwng cyfarfodydd oherwydd bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithiol. Dywedodd bod y trafodaethau'n parhau â Llywodraeth Cymru ynglŷn ag ariannu cerbydau trydan a hydrogen a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

PENDERFYNWYD cytuno ar Adroddiad Perfformiad 2020/21 fel adlewyrchiad o waith yr Awdurdod ac y dylid ei gyhoeddi erbyn y dyddiad statudol sef 31 Hydref, 2021.

5. PROTOCOL FOR MULTI LOCATION (HYBRID) MEETINGS

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro'r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid i'w dderbyn gan y Cyngor.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol bod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (y Ddeddf) yn cyflwyno gofyniad statudol i gynnal cyfarfodydd hybrid yn achos holl gyfarfodydd a phwyllgorau'r Cyngor. Roedd y protocol drafft a oedd ynghlwm â'r adroddiad yn Atodiad 1 yn nodi'r egwyddorion cyffredinol ynghylch sut y dylid cynnal cyfarfodydd hybrid ar yr adeg hon, pan fo cyfyngiadau Covid mewn grym o hyd a phan fo'r gofynion cadw pellter cymdeithasol yn golygu bod llai o gapasiti yn y Siambr/Ystafelloedd Pwyllgor. Aeth ymlaen i ddweud bod y Protocol yn Atodiad 1 yn brotocol gweithredol sy'n debygol o gael ei adolygu, yn enwedig yn ystod y cyfnod hyfforddi, peilota a chyn ei roi ar waith. Bydd rhaid ei adolygu hefyd unwaith y caiff y cyfyngiadau eu llacio/codi.

Cynigodd y Cynghorydd Aled M Jones welliant i baragraff 3.10 yn y Protocol sydd yn nodi 'na chaniateir i unrhyw un arall fod yn bresennol yn yr ystafell y mae'r aelod yn ymuno â'r cyfarfod ohoni'. Dywedodd y Cynghorydd Jones ei fod o'r farn bod paragraff 3.10 yn rhy gaeth ac nad oedd gan bawb ystafell gyfarfod breifat. Cynigodd y Cynghorydd Jones bod paragraff 3.10 yn cael ei ddiwygio fel na chaniateir i unrhyw un arall fod yn bresennol yn yr ystafell y mae'r aelod yn ymuno â'r cyfarfod ohoni, dim ond pan fydd eitemau cyfrinachol/sensitif yn cael eu trafod. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Carwyn Jones. Cafwyd pleidlais ar y gwelliant a chafodd ei dderbyn.

PENDERFYNWYD:-

- **Mabwysiadu'r ddogfen yn Atodiad 1 o'r adroddiad fel Protocol ar gyfer cynnal cyfarfodydd hybrid; a chaniatáu i swyddogion barhau â'r gwaith o ganfod datrysiadau technegol er mwyn gallu cynnal cyfarfodydd;**
- **Bod unrhyw newidiadau i'r Protocol, sydd y tu hwnt i awdurdod presennol y Swyddog Monitro o dan adran 3.5.3.6.6 yn y Cynllun Dirprwyo, yn cael eu gwneud gan y Swyddog Monitro, ond dim ond â chydsyniad penodol pob Arweinydd Grŵp. Bydd unrhyw newidiadau heb gydsyniad o'r fath yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn yn gyntaf;**
- **Tra bod y cyfyngiadau Covid yn dal i fod mewn grym, bydd unrhyw gyfarfodydd/sesiynau briffio a sesiynau hyfforddi/datblygu'n parhau i gael eu cynnal yn rhithiol.**

6. ADOLYGIAD O ETHOLAETHAU SENEDDOL

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 19 Hydref, 2021 i'w dderbyn gan y Cyngor.

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd bod Comisiwn Ffiniau i Gymru yn gynharach eleni wedi cyhoeddi dechrau'r broses i adolygu Etholaethau Seneddol Cymru yn 2023 yn unol â darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986. Yn ddiweddar fe gyhoeddwyd cynigion cychwynnol ar gyfer ymgynghoriad ac mae'r cyfnod ymgynghori yn dod i ben ar 3 Tachwedd, 2021. Nid oes newid etholaeth i Ynys Môn ac mae'n cael ei chadw. Aeth ymlaen i ddweud bod 40 etholaeth seneddol yng Nghymru a bod y cynigion yn argymell lleihau nifer yr etholaethau seneddol hyn i 32. Eiliwyd y cynnig gan Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gan y Cynghorydd Bryan Owen.

Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Roberts ei fod yn croesawu'r cynnig i gadw etholaeth Ynys Môn ond cynigodd welliant y dylai'r Awdurdod ymateb i'r ymgynghoriad y dylid cadw'r 40 etholaeth seneddol yng Nghymru. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Ieuan Williams.

Ar ôl derbyn cyngor cyfreithiol, gwrthodwyd y cynnig gan y Cadeirydd ar y sail ei fod tu hwnt i gwmpas y Cyngor (dim cyswllt uniongyrchol digonol â'r Cyngor/ardal y Cyngor). Felly, cynhaliodd y Cadeirydd bleidlais ar y cynnig gwreiddiol a gyflwynwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Bryan Owen.

Pleidleisiodd 6 aelod o blaid y cynnig, pleidleisiodd 8 yn erbyn y cynnig ac fe wnaeth 12 aelod atal eu pleidlais.

PENDERFYNWYD:-

Nad oedd y cynigiad yn cael ei gadarnhau.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.10 pm

Y CYNGHORYDD GLYN HAYNES
CADEIRYDD